

Aelodau Panel y Gynhadledd Ehangu Mynediad

Beth Button, Llywydd, UCM Cymru

Bethan Guilfoyle, Cyngor CCAUC

Rob Humphreys, Dirprwy Gadeirydd, Prifysgolion Cymru

Celia Hunt, Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, CCAUC

Geraint Rees, Prifathro, ar secondiad i Lywodraeth Cymru

Richard Spear, Prif Weithredwr, Gyrfa Cymru

Chris Taylor, Cyd-gyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg

Gymdeithasol ac Economaidd Cymru

Cyfraniad y Panel

Croesawodd y panel ymrwymiad y Gweinidog at godi uchelgeisiau i ddysgwyr ac ysgogi sgwrs am ehangu mynediad, gan gynnwys herio rhagdybiaethau am ehangu mynediad. Yn ogystal, gwnaethant nodi, o ran datblygu a gweithredu polisïau:

- i. Dylai CCAUC gymryd arweiniad seiliedig ar dystiolaeth, gan gydnabod bod heriau'r Gweinidog yn deg;
- ii. yr angen i ddiffinio Ehangu Mynediad yn glir, ei ddiben a sut i gydbwysu blaenoriaethau a mesurau;
- iii. roedd tensiynau'n bodoli yn y system addysg ehangach ynghylch pa sectorau oedd yn gyfrifol am ba agweddau ar ehangu mynediad, a dylid rhoi sylw iddynt;
- iv. dim ond un rhan o ddatrysiad i wella canlyniadau addysg a chyflogaeth oedd y system AU;
- v. pwysigrwydd sail tystiolaeth Ehangu Mynediad wrth ddatblygu dulliau gweithredu systemig;
- vi. pwysigrwydd cydnabod costau ehangu mynediad wrth ddatblygu dulliau gweithredu newydd;
- vii. roedd angen cydnabod buddiannau a chostau cydweithredu;
- viii. dylai strwythurau ffioedd fod yn rhan o'r ddadl AU yng Nghymru;
- ix. roedd tystiolaeth yn dangos bod gan bobl ifanc ddiffyg hyder mewn addysg uwch a diffyg gwybodaeth amdani, yn hytrach na diffyg dyhead;
- x. pwysigrwydd polisi AU i bob oedran gyda phryder ynghylch trafodaeth sy'n canolbwyntio ar agenda ysgolion yn unig;
- xi. cydnabod pwysigrwydd agweddau ar AU gan gynnwys: disgyblion sy'n gadael ysgol yn barod ar gyfer AU ac yn ymwybodol o lwybrau AU; derbyniadau cyd-destunol a mynediad teg; prentisiaethau lefel uwch, darpariaeth ran amser hyblyg er mwyn y cyfranogiad mwyaf; dysgu teuluol a dysgu sy'n pontio cenedlaethau; gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd; esiamplau mewn cymunedau ac ysgolion; a diffinio llwyddiant myfyrwyr mewn ffyrdd sy'n ystyried llwyddiant mewn cyflogaeth.